Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch

Cyfarfod Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Dydd Mercher, 11 Rhagfyr 2024, trwy fideo-gynadledda

Yn bresennol

Aelodau'r Bwrdd

Simon Gaskell (Cadeirydd)
Jimena Alamo
Nicky Callow
Caroline Carter
Fazal Dad
Phil Deans
Alex Fraser
Rachid Hourizi
Richard Khaldi
Karl Leydecker
Mirjam Plantinga
Dani Saghafi
John Sawkins
Alex Stanley
Peter Vermeulen

Swyddogion

Vicki Stott (Prif Weithredwr)
Tom Yates (Cyfarwyddwr Gweithredol Materion Corfforaethol)
Caroline Blackburn (Prif Swyddog Gweithredol a Chyllid)
Rob Stroud (Cyfarwyddwr Gweithredol Sicrhau Ansawdd a Gwelliant)
Rachel Hill-Kelly (Ysgrifennydd Cynorthwyol y Cwmni)
Millie Crook, Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol (ar gyfer Eitem 11)

Croeso, ymddiheuriadau a sylwadau agoriadol y Cadeirydd

1. Croesawodd Simon Gaskell yr aelodau i'r cyfarfod, a Jimena Alamo a Nicky Callow i'w cyfarfod Bwrdd cyntaf. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Nic Beech, Odette Hutchinson a Lucy Jones.

Cworwm a Buddiannau (Eitem 2)

2. Cyhoeddwyd bod y cyfarfod yn cyrraedd y cworwm. Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau pellach.

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Mercher, 23 Hydref 2024 a Materion yn Codi o'r Cofnodion (Eitem 3, BD-24-25-12)

3. 24/25-45: roedd angen mewnosod atalnod llawn ar ôl 'ailstrwythuro' i egluro'r gwahaniaeth rhwng gwariant. **Cymeradwywyd** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2024 yn amodol ar y cywiriad hwn**.**

4. Materion a gododd:

   24/25-15: Yn dilyn trafodaeth bellach, roedd teitl swydd Rob Stroud wedi'i ddiwygio i gynnwys gwelliant, ac roedd 'gweithredol' wedi'i ychwanegu at deitl ei swydd ef a swydd Tom Yates, yn ogystal â theitl y swydd wag ar y Pwyllgor Gwaith, er mwyn eglurder.

   24/25-63: Roedd SG wedi cymeradwyo aelodau newydd y Bwrdd trwy weithred y Cadeirydd.

   24/25-78: Roedd amcan pellach i Vicki Stott ar gyfer cefnogi gwydnwch y tîm gweithredol wedi'i ddrafftio a'r geiriad wedi'i gymeradwyo gan Rachid Hourizi: “Dylai VS fod yn effro i bwysau ar aelodau’r tîm gweithredol a’r angen i ddatblygu mecanweithiau cymorth unigol a chyfunol yn ôl yr angen”.

Nodyn o Ddiwrnod Cwrdd-i-Ffwrdd y Bwrdd, 24 Hydref 2024 (Eitem 3, BD-24/-25-13)

5. Derbyniodd y Bwrdd y nodyn o'r diwrnod cwrdd-i-ffwrdd. Roedd y cam gweithredu i drefnu trafodaeth bellach gan y Bwrdd ar strategaeth fasnachol QAA i'w ddwyn ymlaen nes bod y swydd wag ar y Pwyllgor Gwaith (mae Jen Watkins yn y rôl dros-dro) wedi'i llenwi'n barhaol.

Adroddiad y Prif Weithredwr ac adroddiad ar ddatblygiadau polisi a rhyngweithiadau â chyllidwyr a rheoleiddwyr yng ngwledydd y DU (Eitem 4 BD-24-25-14)

6. Cyflwynodd Vicki Stott yr adroddiad. Roedd y tîm Gweithredol wedi cynnal diwrnod cwrdd-i-ffwrdd i fyfyrio ar y broses ailstrwythuro ac ystyried y camau nesaf ar gyfer gwreiddio'r strwythur newydd a gweithredu newid diwylliannol.

7. Roedd awgrym y Bwrdd i benodi ymgynghorydd i gynorthwyo â’r newid diwylliannol wedi cael ei dderbyn, ac roedd rhestr o ymgynghorwyr yn cael eu hystyried. Byddai'r ymgynghorydd a ddewisir yn cael ei gyflwyno i'r staff yng nghynhadledd y staff ym Mirmingham ym mis Chwefror.

8. Nid oedd gwerthoedd QAA wedi cael eu hadnewyddu ers 2018, a byddai rhai newydd yn cael eu datblygu gyda staff o'r gwaelod i fyny fel rhan o'r rhaglen newid diwylliannol.

9. Byddai ymgynghorydd yn cael ei gomisiynu i ddatblygu map ffordd technoleg, a byddai'n gweithio ochr-yn-ochr â Phennaeth TG i werthuso systemau presennol QAA ac ystyried y rhai y byddai eu hangen ar gyfer y dyfodol. Unwaith y byddai’r map ffordd wedi cael ei gynhyrchu, byddai tendrau ar wahân yn dilyn ar gyfer y cyfnod gweithredu, gyda darparwyr allanol eto i weithio ochr-yn-ochr â'r tîm TG.

10. Roedd gwaith yn cael ei wneud ar werth aelodaeth o QAA i sefydliadau, ac roedd ymchwil wedi’i gomisiynu i ffurfio sail i ymagwedd fwy strategol at y cynnig. Byddai themâu ar gyfer aelodaeth yn y flwyddyn nesaf yn cynnwys parodrwydd ar gyfer y

Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (TEF), deallusrwydd artiffisial ac uniondeb academaidd, cynnal ansawdd ag adnoddau sy'n lleihau a rheoli sefyllfaoedd pan fo sefydliadau'n cau neu'n uno.

11. Byddai prosesau swyddfa-gefn o amgylch adnewyddu aelodaeth yn cael eu symleiddio. [wedi'i olygu]

12. [wedi'i olygu]

13. [wedi'i olygu]

14. Rhoddodd Tom Yates y wybodaeth ddiweddaraf am y gwledydd datganoledig. Roedd Debra McFarlane wedi cael ei phenodi'n Gyfarwyddwr Gwasanaethau Rheoleiddio, a fyddai'n caniatáu i TY gamu'n ôl o ddechrau'r flwyddyn newydd. Yn yr Alban roedd y dull adolygu newydd wedi'i gyhoeddi, ac roedd paratoadau ar gyfer yr adolygiadau cyntaf ar y gweill. [wedi'i olygu]

15. Yng Nghymru, roedd y rheoleiddiwr newydd, Medr, wedi dechrau gweithio ar ddatblygu ei ddull o sicrhau ansawdd. [wedi'i olygu] Nododd Nicky Callow fod Bangor newydd fod trwy broses newydd QAA ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd. [wedi'i olygu]

16. Yng Ngogledd Iwerddon, roedd QAA wedi cyflwyno eu cynnig ar gyfer dull adolygu newydd ac ymagwedd newydd at welliant i Adran yr Economi. Roedd hyn wedi cael derbyniad da, ond roedd QAA yn aros i'w gwasanaethau gael eu caffael; [wedi'i olygu].

17. Rhannodd Rob Stroud y wybodaeth ddiweddaraf am y contract â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) [wedi'i olygu].

18. [wedi'i olygu]

19. Gofynnodd aelodau'r bwrdd am yr her o reoli'r llwyth gwaith cynyddol. [wedi'i olygu]

20. [wedi'i olygu] Dysgwyd rhai gwersi o'r broses dendro, ac o'r drosglwyddo'r awenau gan y contractwr blaenorol.

21. Gofynnodd Alex Stanley am safbwynt QAA yng nghyd-destun y papur gwyn disgwyliedig ar addysg uwch a'r Adolygiad Gwariant. Roedd QAA yn hyrwyddo eu rôl mewn gwelliant yn Lloegr i'r Adran Addysg, gan gynnwys y cyfleoedd ar gyfer mwy o alinio â gwledydd eraill y DU. [wedi'i olygu]

Adolygiad o'r Gofrestr Risg Strategol QAA (Eitem 5, BD24-25-15)

22. Cyflwynodd Tom Yates y gofrestr risg, a oedd wedi derbyn cryn graffu gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ddiweddar; roedd y diweddariadau'n gymharol fach, gan adlewyrchu'n bennaf newidiadau i berchnogaeth camau lliniaru yn dilyn yr ailstrwythuro.

23. Roedd y prif newid o sylwedd yn ymwneud â'r risg pobl (O3) lle'r oedd yr ailstrwythuro wedi mynd i'r afael â llawer o'r pryderon a amlygwyd yn flaenorol, ond gan arwain at heriau newydd.

24. Nododd y Bwrdd fod gan QAA ddiwylliant cryf o reoli risg, a **chymeradwywyd** y gofrestr risg.

Diweddariad ar gynllun gweithredu'r Gymdeithas Ewropeaidd ar gyfer Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch (ENQA) (Eitem 6, diweddariad llafar)

25. Cyflwynodd Rob Stroud y cynllun gweithredu, a oedd yn mynd i'r afael â'r argymhellion o adolygiad ENQA yn 2023 ac argymhellion dilynol o'r Gofrestr Sicrwydd Ansawdd Ewropeaidd (EQAR). Roedd y gwaith ar yr argymhellion terfynol yn cael ei arwain gan y Pennaeth newydd ar gyfer Ewrop. Roedd QAA yn gwneud cais am achrediad â'r Rhwydwaith Rhyngwladol ar gyfer Asiantaethau Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch (INQAAHE). Byddai RS yn dod â diweddariad mwy cyflawn i gyfarfod y Bwrdd yn y dyfodol, gan gynnwys datganiad sy'n edrych tua'r dyfodol ar gydymffurfiaeth.

Diweddariad o'r Cynllun Blynyddol (Eitem 7 BD-24-25-16)

26. Cyflwynodd Rob Stroud y diweddariad. Roedd y cynllun blynyddol a gymeradwywyd gan y Bwrdd wedi'i alinio â'r strwythur sefydliadol blaenorol. Felly roedd y tîm gweithredol wedi'i ail-lunio, i adlewyrchu'r strwythur newydd, ac roedd yn manteisio ar y cyfle i wahodd timau newydd i gynnig diweddariadau ar gyfer y cynllun, gan gynnwys dau dddangosydd perfformiad allweddol, ym mis Ionawr. Cytunodd y Bwrdd y byddai angen iddynt graffu ar fersiwn ddiwygiedig o'r cynllun, ynghyd ag adlewyrchiad o effaith ariannol unrhyw newidiadau.

27. Byddai QAA yn parhau i ddatblygu meddwl ynghylch eu model aelodaeth, ac a oedd hwnnw'n fodel cywir ar gyfer y sector. Nododd y Bwrdd y byddai angen trin unrhyw newid yn ofalus.

28. Roedd y tîm Ansawdd a Safonau yn addasu ffrydiau gwaith cyfredol i fwydo i'r dangosyddion perfformiad allweddol wedi'u diweddaru, a byddai cyflymiad sylweddol yn y maes hwnnw. Roedd y Cyngor a Chanllawiau ar gyfer y Côd Ansawdd a'r Datganiadau Meincnod Pwnc yn ddogfennau sylfaenol i'r sector ac yn ffrwd waith a flaenoriaethir gan y tîm.

29. Cyn yr ailstrwythuro, rhoddwyd ystyriaeth i gynnal busnes fel arfer, a sefydlwyd prosiect i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o effaith ar y ddarpariaeth trwy gydol y broses. Roedd nodiadau trosglwyddo clir wedi'u darparu gan staff oedd yn gadael, ac roedd rhai wedi aros y tu hwnt i fis Hydref i sicrhau bod safonau gwasanaeth yn cael eu cynnal. Roedd gwaith trwy gontract yn mynd rhagddo fel y cynlluniwyd. Rhoddid ystyriaeth bellach i sut i arddangos QAA a'u gwaith.

30. Roedd yna ddangosydd perfformiad allweddol i ystyried adolygiad llywodraethiant llawn. Cynlluniwyd dau adolygiad pellach ar gyfer effeithiolrwydd pwyllgorau fel rhan o'r ymagwedd gyfredol at brofi. Roedd 5 mlynedd wedi mynd heibio ers yr adolygiad llywodraethiant allanol diwethaf; roedd arfer da'n awgrymu bod achos bellach dros gynnal un arall, [wedi'i olygu]. Byddai barn cadeirydd nesaf QAA yn berthnasol.

Diweddariad Chwarter 1 ar Gyllid (Eitem 8 BD BD-24-25-17)

31. Cyflwynodd Caroline Blackburn ragolygon Ch1. Roedd y rhagolygon wedi'u hail-alinio i'r strwythur newydd ac roedd yn cynnwys y costau a'r swyddi gwag diweddaraf y gwyddys amdanynt, yn ogystal ag adlewyrchu unrhyw newidiadau mawr i ffrydiau incwm. [wedi'i olygu]

32. Byddai adolygiad llawn o wariant nad yw'n gyflogau yn cael ei gynnal gan benaethiaid cyllideb newydd maes o law. [wedi'i olygu] Roedd cyllideb y tîm Datblygu Busnes yn seiliedig ar yr hen strwythur, felly roedd yn uwch nag y byddai angen iddi fod ar hyn o bryd.

33. Roedd gwarged ychwanegol i'w defnyddio i ddod â rhai staff dros-dro i mewn, er mwyn lleddfu'r pwysau ar y ddarpariaeth. Roedd cost flynyddol lawn y strwythur newydd ychydig yn uwch nag a ragwelwyd yn wreiddiol, ond roedd y gyllideb yn darparu'n llawn ar ei chyfer.

34. [wedi'i olygu] **Camau gweithredu:** Cytunodd CB i gyflwyno'r costau llawn ar gyfer gweithredu cynigion yr ymgynghorwyr ym mis Mawrth i'r Bwrdd eu cymeradwyo.

35. **Cymeradwyodd** y Bwrdd y gwariant ar ailstrwythuro a'r gwariant pellach ar ymgynghorwyr [wedi'i olygu].

Gadawodd Nicky Callow y cyfarfod.

Adroddiad ar Faterion Ariannol (Eitem 9, BD24-25-18)

36. Cyflwynodd CB yr adroddiad. **Cymeradwyodd** y Bwrdd ychwanegu Rob Stroud at fandad y banc.

Adroddiad ar Ganfyddiadau Archwiliad Allanol (Eitem 10, BD-24-25-19)

37. Roedd yr adroddiad yr Archwiliad Ariannol Allanol wedi cael ei drafod yn fanwl ym mhresenoldeb yr archwilwyr yn y Pwyllgor Archwilio a Risg. Roedd yn adroddiad archwilio glân; nid oedd unrhyw gamddatganiadau perthnasol. Roedd y ddau welliant a argymellwyd i brosesau rheoli wedi cael eu derbyn. Nododd KL fod y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi cynnal trafodaeth ddefnyddiol â'r archwilydd allanol, ac yn ei ystyried yn archwiliad trylwyr.

38. Nododd y Bwrdd yr adroddiad cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Ymunodd Millie Crook â'r cyfarfod

Adroddiad Blynyddol ar Adnoddau Dynol (Eitem 11, BD 24-25-20)

39. Cyflwynodd Millie Crook yr adroddiadau AD, a oedd yn rhoi sylw i weithgarwch trwy gydol y flwyddyn. Roedd yr arolwg llesiant cyntaf wedi'i gynnal. Roedd y gyfradd ymateb wedi bod yn dda ac roedd yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd angen gwella ymagwedd QAA at lesiant, a byddai'r cynnig presennol yn cael ei adnewyddu yn y flwyddyn newydd.

40. Gofynnodd y Bwrdd am y defnydd o swyddfa Caerloyw, a thybed a oedd gweithio o bell yn ffactor mewn meysydd lle gallai llesiant fod yn bryder. Roedd swyddfa Caerloyw yn cael ei than-ddefnyddio, gan fod 97% o'r staff wedi dewis gweithio o bell, gan adael dim ond tri aelod o staff wedi'u lleoli yn y swyddfa fel rhan o'u cytundeb. Byddai QAA yn symud i ofod llai yn yr un adeilad ym mis Ionawr. Anogwyd timau i ddod at ei gilydd wyneb-yn-wyneb; gan fod QAA bellach yn recriwtio ledled y DU, Caerloyw oedd y lleoliad mwyaf cyfleus ar gyfer hyn yn llai a llai aml. [wedi'i olygu] Atgoffodd y Bwrdd y Pwyllgor Gwaith i fod yn effro i dlodi gofod, yn enwedig yn achos staff iau. [wedi'i olygu]

41. Cynhaliwyd yr arolwg ym mis Ebrill, ac roedd rhai o'r materion a godwyd mewn maes penodol o'r busnes wedi cael sylw, gan gynnwys trwy newidiadau yn y staff. [wedi'i olygu]

42. Nododd y Bwrdd y byddai crynodeb a meincnodi allanol ar gyfer atebion allweddol yn ddefnyddiol yn y dyfodol. Byddai'r ymatebion i'r arolwg yn cael eu rhannu â rheolwyr a staff.

43. [wedi'i olygu]

44. Nododd y Bwrdd bwysigrwydd datganiad o werthoedd ar gyfer yr asiantaeth, fel nad yw pwrpas yr Asiantaeth a'i ymdeimlad o wasanaeth i'r sector yn cael eu colli wrth symud i feddylfryd mwy masnachol a dulliau cyflwyno newydd. Byddai'n ddefnyddiol trafod gwerthoedd eto; cadarnhaodd MC y byddai ymgynghorydd yn cael ei gyflogi i gynorthwyo â'r gwaith ar ddiwylliant a gwerthoedd QAA.

45. [wedi'i olygu] Cyn yr ailstrwythuro roedd yn amlwg bod rhai wedi cael eu cyflogi'n gyson, ac felly roedd swyddi parhaol ychwanegol wedi'u creu i ganiatáu i staff parhaol wneud y gwaith.

46. Roedd QAA yn edrych ar oblygiadau a manteision achredu fel cyflogwr cyflog byw. [wedi'i olygu]

Gadawodd Millie Crook y cyfarfod

Ailymunodd Nicky Callow â'r cyfarfod.

27ain Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol gydag Aelodau'r Cwmni

Yn bresennol

Aelodau'r Bwrdd

Simon Gaskell (Cadeirydd)
Jimena Alamo
Nicky Callow
Caroline Carter
Fazal Dad
Phil Deans
Alex Fraser
Rachid Hourizi
Odette Hutchinson
Richard Khaldi
Karl Leydecker
Mirjam Plantinga
Dani Saghafi
John Sawkins
Alex Stanley
Peter Vermeulen

Cynrychiolwyr aelodau awdurdodedig y Cwmni

Kirsty Conlon (yn cynrychioli Prifysgolion yr Alban)
Dana Gamble (yn cynrychioli GuildHE)
Beth Cooper (yn cynrychioli Prifysgolion y DU)
Gwen Williams a Chris Laity (yn cynrychioli Prifysgolion Cymru)

Swyddogion

Vicki Stott (Prif Weithredwr)
Tom Yates (Cyfarwyddwr Gweithredol Materion Corfforaethol)
Rob Stroud (Cyfarwyddwr Gweithredol Sicrhau Ansawdd a Gwelliant)
Caroline Blackburn (Prif Swyddog Gweithredol a Chyllid)
Rachel Hill-Kelly (Ysgrifennydd Cynorthwyol y Cwmni)

Penderfyniadau

Penderfyniad 1- Adroddiad y Cadeirydd i Aelodau'r Cwmni a Chofnodion y 26ain Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (Eitem 12, BD 24-25-21)

1. Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod ac agorodd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

2. **Cymeradwywyd** cofnodion y cyfarfod fel cofnod cywir.

Penderfyniad 2 - Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol QAA 2023-2024 a Datganiadau Ariannol QAAE (Eitem 13, BD BD-24-25-22)

3. Byddai geiriad yr adroddiad blynyddol yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r ffaith bod aelodau'r Bwrdd a enwebwyd gan aelodau'r cwmni a rhanddeiliaid eraill wedi'u penodi'n ffurfiol gan y Bwrdd.

4. Yn amodol ar y newid hwnnw, cafodd Adroddiad Blynyddol, cyfrifon a llythyr cynrychiolaeth QAA eu **cymeradwyo**.

5. Nododd y Bwrdd ac Aelodau'r Cwmni ddatganiadau ariannol a llythyr cynrychiolaeth *QAA Enterprises.* [wedi'i olygu] Pe bai angen is-gwmni ar QAA yn y dyfodol, mae'n debyg y byddai'n un elusennol, felly nid oedd yn debygol y byddai *QAA Enterprises* yn cael ei ddefnyddio. [wedi'i olygu]

6. **Cymeradwyodd** y Bwrdd ac Aelodau'r Cwmni ddirwyn *QAA Enterprises* i ben.

7. **Cymeradwywyd** ailbenodiad Crowe fel archwilwyr ar gyfer 2024-25**;** byddai ail-dendro am archwilydd ar gyfer QAA yn digwydd yn 2025.

8. Daeth y cadeirydd â'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i ben.

Bwrdd QAA gydag Aelodau'r Cwmni

Diweddariad ar Faterion Cyfredol gan y Prif Weithredwr (Eitem 14, Eitem Lafar)

1. Rhannodd Vicki Stott y wybodaeth ddiweddaraf am weithgaredd QAA y llynedd. Roedd QAA wedi ymgysylltu â'r llywodraeth newydd yn San Steffan ac wedi croesawu cyhoeddi adolygiad Behan a phenodiad Syr David Behan yn Gadeirydd Swyddfa'r Myfyrwyr. Parhaodd QAA i ymgysylltu ar lefel polisi cenedlaethol â'r Hawl Dysgu Gydol Oes, trosglwyddo credydau ac ymagweddau at ansawdd.

2. Roedd QAA yn ymgysylltu â'r Adran Addysg ynghylch eu hymagwedd at wella ansawdd. Gan ddefnyddio'r Côd Ansawdd fel sail, roedd QAA wedi cynnal adolygiad o flynyddoedd sylfaen rhyngwladol ar gyfer Prifysgolion y DU. Roedd hyn wedi cael derbyniad da fel enghraifft o'r sector yn mynd i'r afael â'i broblemau ei hun ac yn cymryd camau rhagweithiol. [wedi'i olygu] Roedd y Cyngor Ansawdd ar ei newydd wedd wedi bod o gymorth wrth hwyluso sgyrsiau o'r fath.

3. [wedi'i olygu]

4. Yn yr Alban, roedd QAA wedi lansio'r Adolygiad Gwella Ansawdd Trydyddol, a oedd yn dod ag Addysg Bellach ac Uwch ynghyd ar gyfer un dull adolygu, gan gyflwyno model sicrhau ansawdd QAA i'r ddau sector. Yng Nghymru, roedd QAA yn cyflwyno'r Adolygiad Gwella Ansawdd ac yn gweithio gyda Medr ar ddatblygu eu dull o ymdrin ag ansawdd. Yng Ngogledd Iwerddon, roedd QAA wedi dylunio a chynnig dull adolygu newydd.

5. Yn ystod yr haf, cyrhaeddwyd y garreg filltir o'r miliynfed myfyriwr i gofrestru ar gwrs Mynediad i AU. Roedd QAA yn gweithio ar adolygiad cynhwysfawr o'r fframweithiau trwyddedu a rheoleiddio ar gyfer y diploma, ac yna byddai'n datblygu'r cynnig dros y blynyddoedd nesaf [wedi'i olygu].

6. Roedd QAA wedi gwneud cais llwyddiannus am gontract â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i gynnal eu trefniadau sicrhau ansawdd ledled y DU. Roedd QAA hefyd wedi ennill contract â'r Adran Busnes a Masnach â'r nod o archwilio rhwystrau i fynediad mewn saith marchnad ryngwladol. Roedd y ddau hyn yn cadarnhau hyder yn arbenigedd QAA a gwerth sicrhau ansawdd annibynnol. Roeddent yn dangos yn glir barodrwydd parhaus QAA i addasu i amgylcheddau polisi newidiol a'i statws.

7. Roedd fersiwn newydd o'r Côd Ansawdd wedi'i gyhoeddi. Roedd yn fersiwn fwy cynhwysfawr a llawnach, ac roedd wedi cael croeso gan y sector. Roedd QAA wedi'i ddatblygu gyda'r sector ledled y DU, ac roedd y fersiwn newydd yn canolbwyntio llai ar Loegr. Roedd yn arddangosiad pendant o bŵer cyfunol y sector. Ym mis Chwefror roedd y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch wedi'i ddiweddaru, ac roedd y Datganiadau Meincnod Pwnc yn parhau i gael eu diwygio a'u defnyddio'n helaeth. Mewn ymateb i bryderon gan ddarparwyr, roedd QAA yn blaenoriaethu darpariaeth rhyddfraint yn eu canllawiau a'u cynghorion i ategu'r Côd Ansawdd.

8. Roedd QAA wedi llofnodi sawl memorandwm dealltwriaeth pellach gyda sawl gwlad newydd, ac erbyn hyn roedd ganddynt tua 30 o bartneriaethau byw, oedd yn caniatáu i QAA gydweithio â'u partneriaid rhyngwladol i ddeall systemau ansawdd a'r gwaith diwydrwydd dyladwy sydd ei angen ar gyfer darpariaeth ryngwladol.

9. Parhaodd cynadleddau QAA i ddenu siaradwyr a mynychwyr o bob cwr o'r byd, ac roedd yr Asiantaeth yn cael ei hystyried yn rhyngwladol fel corff o'r radd flaenaf. Roedd VS wedi cael ei hethol yn llywydd INQAAHE.

10. Nododd y Cadeirydd barhad ac atgyfnerthiad rhyngweithiadau cynhyrchiol. Gwnaeth aelodau'r cwmni sylwadau bod cyfraniadau QAA yn cael eu gwerthfawrogi gan y sector.

11. Diolchodd y Cadeirydd i Aelodau'r Cwmni.

Gadawodd Aelodau'r Cwmni'r cyfarfod.

Busnes Bwrdd/Pwyllgor QAA

Adroddiad Blynyddol ar Gwynion, Apeliadauau a Chamau Cyfreithiol (Eitem 15, eitem lafar)

61. Cyflwynodd Rachel Hill-Kelly grynodeb o gwynion, apeliadau a chamau cyfreithiol. Ni chafwyd unrhyw gwynion, apeliadau na chamau cyfreithiol yn ystod y flwyddyn, ond nid oedd y tîm Llywodraethiant yn cymryd hyn fel achos i fod yn hunanfodlon. Bu craffu sylweddol ar y polisïau cwynion ac apeliadau dros y ddwy flynedd ddiwethaf

gan ENQA a Chomisiynydd y Gymraeg. Roedd y tîm yn hyderus bod y polisïau'n gadarn ac yn addas at y diben, ond byddent yn dal ati i'w hadolygu i sicrhau bod hyn yn parhau i fod yn wir wrth i QAA ymgymryd â ffrydiau gwaith newydd.

Penodiadau ac Ymddeoliadau i'r Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd (Eitem 16 BD 24-25-23)

62. Cyflwynodd SG y papur penodiadau. Nododd y Bwrdd fod camau wedi'u cymryd gan y cadeirydd rhwng cyfarfodydd, fel y cytunwyd yng nghyfarfod blaenorol y Bwrdd, i gymeradwyo penodiad Lucy Jones a Nicky Callow i Fwrdd QAA yn ffurfiol.

63. Amlinellodd TY y broses o chwilio am Gadeirydd newydd Bwrdd QAA. [wedi'i olygu]

64. [wedi'i olygu]

65. Nododd y Bwrdd fod y cwmni chwilio wedi cael ei benodi yn dilyn proses dendro gystadleuol [wedi'i olygu]

66. [wedi'i olygu]

67. Yr ymgeisydd llwyddiannus oedd Christian Brodie, ac argymhellodd y panel y dylid ei benodi. Cymeradwyodd y Bwrdd yn unfrydol benodi Christian Brodie yn Gadeirydd Bwrdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd o 26 Mawrth 2025 i 25 Mawrth 2028.

68. Nododd SG nad oedd, yn hollol briodol, wedi bod yn rhan o'r broses, ac nad oedd wedi mynegi unrhyw farn hyd at y pwynt hwn, ond (gan fod y penodiad wedi'i wneud bellach) ei fod yn ystyried hwn yn benodiad cryf iawn.

63. **Cymeradwyodd** y Bwrdd y penodiadau i'r Pwyllgorau canlynol o 11 Rhagfyr 2024 am weddill tymor cyntaf yr aelod perthnasol ar Fwrdd QAA:
    a. i'r Pwyllgor Archwilio a Risg: Richard Khaldi a Jimena Alamo.
    b. i'r Pwyllgor Enwebu a Thaliadau: Caroline Carter
    c. i Fwrdd *QAA Enterprises*: Rachid Hourizi
    d. i Bwyllgor Cynghori Strategol Cymru: Nicky Callow, i weithredu fel Cadeirydd a Mirjam Plantinga.

Adroddiadau o'r Pwyllgorau (Eitem 17, BD-24-25-24)

69. Nododd SG fod y Bwrdd Ymgynghorol yn parhau i fod yn fecanwaith defnyddiol ar gyfer trafod.

70. Pwyllgor Archwilio a Risg: Adroddodd KL fod y pwyllgor wedi cynnal trafodaeth helaeth ar Adroddiad Blynyddol a chyfrifon QAA. [wedi'i olygu]

71. Pwyllgor Cynghori Strategol y Myfyrwyr: Nododd Alex Stanley fod y sesiwn sefydlu wyneb-yn-wyneb a'r diwrnod cwrdd-i-ffwrdd wedi bod yn fuddiol iawn. Roedd wedi bod yn gyfarfod diddorol, a chytunwyd ar dri phrif faes ffocws ar gyfer y pwyllgor. Roedd y rhain yn cynnwys ystyriaeth o werth am arian ac ansawdd, â ffocws ar gostau byw a'r cynnydd mewn ffioedd, gan ei bod yn bwysig sicrhau bod myfyrwyr yn deall bod materion gwerth ac ansawdd yn faterion ar wahân, ac nad oedd gwerth am arian yn fetrig llwyddiannus. Nododd JA y byddai asesu ac adborth, tueddiadau yn y sector a boddhad myfyrwyr hefyd yn cael sylw, yn enwedig sut y cafodd myfyrwyr eu hasesu ar eu dealltwriaeth a sut y caiff hynny ei addasu i ddiwallu anghenion myfyrwyr. Roedd ansawdd yr adborth ar gyfer gwelliannau i fyfyrwyr, a hygyrchedd yr iaith a ddefnyddir gan sefydliadau, hefyd yn fater i'w drafod. [wedi'i olygu]

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Risg i'r Bwrdd (Eitem 18 BD -24-25-25)

72. Cyflwynodd KL yr adroddiad. Byddai'r pwyllgor yn canolbwyntio'r flwyddyn nesaf ar y tendr ar gyfer yr archwilydd allanol. Roedd archwiliadau mewnol wedi cael eu hoedi tra bod ystyriaeth wedi cael ei rhoi i'r hyn oedd fwyaf effeithiol a fyddai'n darparu'r gwerth mwyaf i QAA. Parhaodd y pwyllgor i fod yn effro i'r angen am reoli risg yn rhagweithiol a pha mor briodol oedd yr awydd am risg wrth i QAA drawsnewid ei ffocws.

73. Gofynnodd y Bwrdd am weithio gartref a goblygiadau archwilio posibl ar gyfer gweithio o bell, neu a oedd yr archwiliad yn ddall i ble roedd y gwaith yn cael ei wneud. [wedi'i olygu] Nododd KL fod digonolrwydd rheolaethau'n cael ei ystyried yn barhaus gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, a bod prosesau QAA wedi'u cynllunio gan ystyried gweithio o bell. **Cymeradwyodd** y Bwrdd yr adroddiad.

Diweddariadau Polisi (Eitem 19, BD-24-25-26)

77. Cyflwynodd CB a TY y diweddariadau a oedd wedi'u diwygio i adlewyrchu'r ailstrwythuro. **Cymeradwyodd** y Bwrdd y diwygiadau.

Unrhyw Fusnes Arall

78. Nid oedd dim

Sylwadau i gloi gan y Cadeirydd

79. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cyfraniadau.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

80. Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Mercher, 12 Mawrth 2025 yn swyddfeydd Jisc yn Llundain.

Rhestr Gweithredu Bwrdd y Cyfarwyddwyr				
Cofnod:	**Gweithredu:**	**Perchennog:**	**Dyddiad cwblhau:**	**Diweddariad:**
24-25-34	CB i ddod â'r costau llawn ar gyfer gweithredu cynigion yr ymgynghorwyr ym mis Mawrth i'w cymeradwyo.	CB	12/3/25	